

Cymunedau Creadigol AHRC

Ymarferydd Arloesi Cymunedol Peilot

Papur Polisi

Lloegr Iechyd a Lles

Hydref 2024



Comisiynwyd gan:



Cyd-destun Polisi

Lerpwl yw'r trydydd awdurdod lleol mwyaf difreintiedig, gyda 63% o'r trigolion yn byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yn Lloegr. Mae gan y ddinas gyfradd sylweddol uwch o oedolion ag anhwylderau iechyd meddwl na'r cyfartaledd cenedlaethol, yn rhannol oherwydd [cyfraddau tlodi uchel ac anghydraddoldebau iechyd](#). Heb newidiadau, gallai trigolion Lerpwl weld dwywaith nifer yr oedolion yn profi iselder erbyn 2040.

Mae [systemau gofal integredig](#) a modelau iechyd cymunedol fel [Life Rooms](#) Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Mersey Care yn mynd i'r afael â'r argyfwng hwn gan gefnogi cymunedau lleol drwy ddulliau dysgu, presgripsiynu cymdeithasol a chynhwysiant. Fodd bynnag, mae cynaliadwyedd a datblygiad y mentrau hyn yn wynebu [heriau](#) oherwydd anghydbwysedd rhwng sectorau, diffyg methodoleg wrth werthuso ac ymchwilio i wasanaethau, a chyllid annigonol.

Mae cyd-gynhyrchu a chreadigrwydd yn hanfodol i fynd i'r afael â'r heriau hynny a sicrhau ymateb cyfannol a chynaliadwy i'r argyfwng iechyd meddwl, wedi'i deilwra i anghenion unigryw poblogaeth Lerpwl.



Argymhellion

Fel Ymarferydd Arloesi Cymunedol a ariennir gan yr AHRC, mae fy ymchwil yn tanlinellu sut mae cyd-gynhyrchu drwy gerddoriaeth yn gwella lles cymunedol. Gan adeiladu ar bartneriaeth 15 mlynedd rhwng Cerddorfa Ffilharmonig Lerpwl ac Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Mersey Care, mae fy ymchwil “Fostering wellbeing through music collaboration and co-creation in the community”, yn cynnig argymhellion yn seiliedig ar bum egwyddor allweddol.

Cysylltiad

Gwella a chynnal cydlyniad rhwng rhanddeiliaid

Rhaid i ranbarthau datganoledig fel [Awdurdod Cyfun Dinas-Ranbarth Lerpwl](#) arwain y gwaith o gydlynu rhanddeiliaid iechyd creadigol drwy gynnwys aelodau o'r gymuned, ymarferwyr, staff clinigol, gweithwyr cyswllt, hwyluswyr a thimau rheoli o Ymddiriedolaethau'r GIG a sefydliadau diwylliannol. Rhaid cefnogi rhanddeiliaid i gadw mewn cysylltiad drwy ddiweddariadau a diwygiadau, gan sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithiol ac yn gynhwysol, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig.

Gwrandewch ar yr arbenigwyr drwy brofiad a gwrando ar ddigwyddiadau go iawn

Dylai lleisiau a dewisiadau'r rheini sydd â heriau iechyd meddwl lywio'r broses o

wneud penderfyniadau ar bob lefel. Gall prosiectau fel creu cerddoriaeth ar y cyd helpu ymarferwyr i gysylltu'n ddwfn â defnyddwyr gwasanaeth, gan eu galluogi i wrando ar eu straeon, a deall eu hanghenion bob dydd. Dylai'r profiad uniongyrchol hwn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o lunio polisïau a gwasanaethau Awdurdodau Cyfun Maerol, yn ogystal â llywio penderfyniadau cyllido datganoledig.

Gwella strategaethau cyfathrebu

Mae cyfathrebu clir a rolau diffiniedig yn hanfodol ar gyfer cynllunio a gwerthuso effeithiol. Mae'n hanfodol gwella strategaethau cyfathrebu ymysg sefydliadau a rhanddeiliaid, gan adnabod gwahanol flaenoriaethau ac arddulliau. Dylai timau rheoli ganolbwyntio ar wrando'n astud, gan sicrhau adborth rheolaidd ymysg timau amrywiol. Bydd hyn yn cryfhau'r cysylltiad, gan rannu canfyddiadau'n fwy effeithiol. Bydd cysylltiad cryfach yn hyrwyddo bod yn agored, yn gwella cydweithio, ac yn creu amgylchedd cydlynol a thryloyw.

Cydweithio

Llywio ymchwil a gwerthuso cydweithredol

Rhaid i brifysgolion weithio gydag ymarferwyr i greu system sy'n cydnabod rolau ymarferwyr fel llywyr rhwng cymunedau a'r byd academiaidd, ac fel

cyfranwyr polisi gweithredol. Mae hyn yn gofyn am greu partneriaethau teg, gan alluogi academyddion, ymarferwyr a chyfranogwyr i fyfrio, ail-lunio ac ail-ffurfio ymchwil gyda'i gilydd. Rhaid i brifysgolion, MCAs a chynghorau lleol gydweithio i gefnogi ymarferwyr yn ogystal â defnyddwyr gwasanaeth i gymryd rhan mewn ymchwil, yn hytrach na bod yn destun ymchwil.

Comisiynu 'cyd-gynhyrchu'

Rhaid i sefydliadau iechyd, sefydliadau diwylliannol a llunwyr polisïau gydweithio'n agos i gyd-gynhyrchu model iechyd sy'n integreiddio lleisiau pobl sydd â phrofiad uniongyrchol ac ymarferwyr. Drwy rannu parch a pherchnogaeth, bydd y dull hwn yn gwneud gwasanaethau gofal iechyd meddwl yn fwy perthnasol, effeithiol a chynaliadwy, gan arwain at ganlyniadau gwell i unigolion a chymunedau. Bydd mapio sefydliadau diwylliannol ac ymarferwyr gyda'i gilydd ar lefel leol yn helpu i greu modelau effeithiol sy'n integreiddio gweithgareddau creadigol i wasanaethau gofal iechyd, gan eu gwneud yn fwy hygyrch i bobl sy'n wynebu amddifadedd a heriau iechyd meddwl.

Creadigrwydd

Cyd-greu offer a dulliau i ehangu gweithlu cerddorion gofal iechyd

Mae astudiaethau diweddar yn tynnu sylw at werth a chymhlethdod cynyddu proffesiynoldeb cerddorion gofal iechyd. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid oes hyfforddiant wedi'i ddilysu ar gyfer

cerddorion gofal iechyd. Rhaid i brifysgolion, MCAs a sefydliadau diwylliannol gefnogi cerddorion i gyd-greu pecyn cymorth arloesol y mae mawr ei angen gyda thrylwyredd academiaidd i lywio fframwaith a sicrhau bod data'n cael ei gasglu'n gyson.

Rhaid i awdurdodau cyfun gyddylunio dulliau ymchwil gydag aelodau'r gymuned, ymarferwyr a phartneriaid creadigol

Rhaid addasu dulliau ymchwil i anghenion cymunedau lleol mewn ffordd creadigol a phersonol. Rhaid hyfforddi ymarferwyr a phartneriaid creadigol i roi'r sgiliau i aelodau'r gymuned reoli eu hiechyd a'u lles eu hunain drwy ddulliau creadigol. Mae cyllidebau sgiliau datganoledig newydd y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn cynnig cyfle newydd i dreialu'r ymyriadau hyn yn agos at gymunedau.

Ymrwymiad

Gwerthfawrogi rôl ymarferwyr creadigol yn y byd academiaidd

Rhaid i brifysgolion gydnabod rôl hanfodol ymarferwyr creadigol mewn lleoliadau academiaidd. Gall cydbwysu ymchwil academiaidd drylwyr â gwaith llawrydd fod yn heriol, felly mae'n hanfodol dod o hyd i ffyrdd o gysylltu profiad ymarferol â theori academiaidd. Mae'r integreiddio hwn yn allweddol i sicrhau hyfforddiant gwell i ymarferwyr sy'n cyfoethogi ymchwil. Dylid gwerthfawrogi'r ddau bersectif a'u cyfuno er budd pawb. Rhaid i brifysgolion ymrwymo i gefnogi llwybrau anhraddodiadol i hyfforddiant ôl-raddedig,

gan fanteisio ar arbenigedd yn ôl profiad, a chwalu rhwystrau rhwng ymarfer a theori, a rhwng arbenigedd proffesiynol ac academaidd.

Gwella mynediad at iechyd creadigol yn y gymuned

Mae codi ymwybyddiaeth y gymuned a derbyn iechyd meddwl creadigol yn hanfodol. Mae angen i ni nodi a mynd i'r afael â rhwystrau fel heriau ariannol, stigma diwylliannol, a ffactorau logistaidd sy'n atal pobl rhag ymgysylltu â dulliau cydweithredol a chreadigol. Rhaid i awdurdodau cyfun maerol a llywodraeth leol fuddsoddi mwy mewn strategaethau wedi'u targedu gyda thimau cynhwysiant cymdeithasol i ehangu cyrhaeddiad ac effeithiolrwydd gwasanaethau iechyd meddwl creadigol a helpu i leihau anghydraddoldebau iechyd.

Grymuso gofal iechyd meddwl cymunedol lleol drwy bwerau maer datganoledig

Bydd buddsoddi mewn cymunedau lleol a'u grymuso yn gwella gwybodaeth am iechyd creadigol ac yn cefnogi rhaglenni iechyd meddwl arloesol sy'n diwallu anghenion penodol Awdurdod Cyfun Dinas-Ranbarth Lerpwl. Dylai'r llywodraeth genedlaethol gyflymu datganoli a throsglwyddo rhagor o bwerau a chyllidebau gwneud penderfyniadau i awdurdodau cyfun maerol er mwyn sicrhau bod penderfyniadau am ofal iechyd meddwl cymunedol yn cael eu gwneud yn nes at y rhai yr effeithir arnynt. Bydd y dull hwn yn arwain at ganlyniadau iechyd gwell a chymunedau cryfach a mwy cydnerth.

Gofal

Defnyddio datganoli i alluogi gofal cyfannol ac integredig

Mae angen i ni fabwysiadu agwedd gyfannol at ofal iechyd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn cyfan, nid ar ei salwch yn unig. Mae hyn yn golygu deall a pharchu anghenion, dewisiadau a gwerthoedd unigryw pob unigolyn. Drwy gydweithio ar draws sectorau a disgyblaethau, gallwn greu system gofal iechyd sy'n trin pawb ag urddas, empathi a thosturi mewn cymunedau lleol. Rhaid i'r MCA ddefnyddio eu pwerau sydd newydd gael eu datganoli i helpu i ddod â defnyddwyr gwasanaethau, partneriaid iechyd ac ymarferwyr creadigol at ei gilydd i wneud y gofal mwy personol a chynhwysol hwn yn flaenoriaeth ac yn realiti. Bydd y newid hwn yn arwain at well canlyniadau iechyd a chymuned gryfach a mwy cysylltiedig.

Canolbwyntio ar atal, nid dim ond ymateb

Mae mwy o fuddsoddi mewn gofal cymunedol yn hanfodol i atal argyfyngau. Drwy gysylltu, cydweithio a chreadigrwydd, mae ymarferwyr creadigol yn chwarae rhan allweddol drwy helpu unigolion i adennill eu sgiliau a'u hyder. Yn ei dro, bydd hyn yn arafu'r dirywiad, yn lleihau rhestrau aros, yn cwtogi ar arosiadau yn yr ysbyty, ac yn lleihau costau gofal iechyd cyffredinol. Rhaid i MCA gefnogi ymarferwyr a rhanddeiliaid i adeiladu a rhannu gwybodaeth am werth cymunedau creadigol fel model ar gyfer ymyrraeth gynnar.

Cyd-destun Datganoledig

Mae'n amlwg bod yr argymhellion hyn yn galw am **fwy o ddatganoli iechyd, diwylliant a sgiliau a chydweithio cryfach ar draws sectorau dan arweiniad Awdurdodau Cyfun Maerol yn Lloegr.**

Mae [Adroddiad Cyflwr Iechyd Lerpwl 2024](#) yn tanlinellu'r angen brys am newid radical drwy bwerau iechyd datganoledig. Ochr yn ochr â hynny, mae [Cynllun Corfforaethol](#) Maer Rhanbarth Dinas Lerpwl yn galw am [ddatganoli dyfnach](#) mewn meysydd fel yr Economi, Pobl, Lle, Trafnidiaeth a Seilwaith Digidol. Mae'r cynllun yn cydnabod bod gwella iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd yn allweddol i wella cynhyrchiant. Fodd bynnag, nid yw'n cynnwys manylion sut i fynd i'r afael â'r argyfwng iechyd meddwl presennol a'r angen dybryd am ddatganoli iechyd.

Yn ddiweddar, lansiodd cynlluniau diwylliannol Awdurdod Cyfun Lerpwl, gyda chefnogaeth pwerau datganoledig, [gynllun pum mlynedd](#) yn canolbwyntio ar gymunedau, unigolion a gofodau creadigol. Mae integreiddio'r ymdrechion hyn â gofal iechyd lleol yn hanfodol, gan adeiladu ar draddodiad cryf Lerpwl o fanteisio ar y celfyddydau er lles. Mae'r [bartneriaeth rhwng Cerddorfa Ffilharmonig Lerpwl ac Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG Mersey Care](#) yn dangos sut gall cydweithio o'r fath drawsnewid bywydau, gan fynd i'r afael â heriau na all meddyginiaeth eu datrys ar ei ben ei hun.

Mae rheolaeth leol, perchnogaeth, undod a chydlyniant cymunedol yn hanfodol ar gyfer system gofal iechyd meddwl greadigol sy'n diwallu anghenion poblogaeth Lerpwl, gan sicrhau gofal sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, sy'n effeithiol, yn hygyrch ac yn gynhwysol. Bydd dyfodol datganoli yn Lloegr a rôl awdurdodau cyfun maerol yn hanfodol i gyflawni'r newid hwn y mae mawr ei angen o ran dull gweithredu a chyflawni er mwyn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sydd o'n blaenau.

Gwybodaeth Bellach:

I gael rhagor o wybodaeth am Gymunedau Creadigol AHRC ewch I www.creativecommunities.uk

Cysylltwch â'r CIP:

Georgina Aasgaard, Prifysgol Lerpwl | georgina.aasgaard@liverpool.ac.uk

Ariennir Cymunedau Creadigol gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau yn y DU (Cytundeb Grant Rhif AH/X001555/1) ac fe'i cynhelir ym Mhrifysgol Northumbria, Newcastle.